

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER

11 Hydref 2017

AM 7.00 O'R GLOCH YN YSGOL BRYNGWRAN

YN BRESENNOL:	
Cyng I Roberts, I Rowlands, R G Parry, C LI Thomas, G Parry, S Parry, E Huws, C Hughes	
YMDDIHEURIADAU:	
Cyng K Humphreys a Cyng D Rees (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	DATGAN DIDDORDEB - Dim
3	DERBYN COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 13 Medi 2017. Cyng I Rowlands yn cynnig a Cyng S Parry yn eilio.
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Maes chwarae - Soniodd Cyng S Parry am grant chwarae cymunedol ar gael trwy'r Cyngor Sir a cynigodd anfon y gwybodaeth at y Clerc i cyflwyno cais arall.
4.2	<p>Lon Salem - Darllenwyd ymateb y Cyngor Sir: Diolch am eich neges. Cadarnhaf fod archeb wedi cael ei hanfon ar gyfer y marciau ffordd a byddwn yn atgoffa ein contractwyr am yr angen i wneud y gwaith yma. O ran asesu lleoliad y gwaharddiad 30mya, atodaf fy sylwadau wrth ymateb i'r Cynghorydd Bob Parry ar y 31/07/17</p> <p>"Bydd angen asesiad cyn ymestyn yr arwydd 30mya gan fod angen lefel benodol o ddatblygiad er mwyn cyfiawnhau ac wedyn bydd angen gorchymyn traffic. Mae yr arwydd 30mya presennol wedi ei leoli yn gywir o ystyried lle mae tai a datblygiadau pentref Bryngwran yn dechrau. Ar yr olwg gyntaf, nid yw yn ymddangos fod unrhyw ddatblygiadau tai ar ochr y ffordd rhwng Bryngwran a Chapel Hebron, felly nid oes cyfiawnhad dros waharddiad o 30mya wrth ochr caeau gwag. Y cwestiwn felly yw os oes cyfiawnhad dros waharddiad byr heibio i Gapel Hebron. Fe drefnwn arolwg cyflymder i weld beth yw cyflymder cerbydau yno ar hyn o bryd ac adrodd yn ol efo'r canlyniadau ac unrhyw argymhellion."</p> <p>Rwyf wedi asesu'r safle a chredaf fod yr arwyddion yn y lleoliad cywir. Hynny yw meant wedi eu lleoli ar ol yr eiddo olaf ac ar ol y mynedfa cae olaf ac mewn lleoliad sydd yn eu gwneud yn amlwg. Mae enghreifftiau eraill ar draws yr ynys wedi dangos fod arwyddion 30mya sydd yn cael eu symud yn rhy bell allan yn cael eu hanwybyddu. Rwyf hefyd wedi ystyried os oes cyfiawnhad dros waharddiad byr o 40mya trwy Gapel Hebron. O ystyried natur gul a throellog y ffordd ac fod y cyflymder naturiol a diogel I deithio ar hyd y darn yma o ffordd yn llai na 40mya, nid wyf yn credo fod cyfiawnhad dros gyflwyno gwaharddiad.</p> <p>Llofnod.....Cadeirydd 06.12.17</p>

	Diolch am ddod a'r mater a'ch pryderon i'n sylw. Cynigodd Cyng R G Parry cael gair gyda Mr Huw Percy, Adran Priffyrdd i symud pethau ymlaen.
4.3	Torri coed y fynwent - Mae'r gwaith wedi cael ei wneud yn ddi-dal gan Mr Rhys Williams, y contractwr torri gwair. Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr o ddiolch i Mr Williams
4.4	Sedd wag - Mae'r Clerc wedi trefnu i hysbysebu y sedd wâg
5	ADRODDIAD y CADEIRYDD Dywedodd y Cadeirydd bod Mr Ian Lloyd yn gweithio ar ffensio y maes chwarae. Mae trefniadau ar gyfer Sul y Cofio mewn llaw.
6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Pwyllgor Safonau
6.1	Adolygiad o Gofrestrau Diddordebau Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned - Trafodwyd a derbyniwyd adolygiad y Pwyllgor Safonau. Hefyd, derbyniwyd y model Côt Ymddygiad. Mae y Clerc ar hyn o bryd yn cadw rhestr (papur) o datganiadau o diddordeb a bydd o hyn ymlaen yn cyhoeddi'r gofrestr ar y wefan.
	Cynllunio
6.2	16C169D Cais llawn ar gyfer codi annedd yn Hillsborough, Salem St, Bryngwran - dim sylwadau
	Priffyrdd
6.3	Lon Salem - gweler 4.2
7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
7.1	Mr Rhys Williams - gweler 4.3
8	MATERION ERAILL
8.1	Ystyried newid noson y cyfarfodydd misol - Cytunwyd i symud y cyfarfodydd misol i'r ail nos lau pob mis yn dechrau 11.01.18
8.2	Lon y Fynwent - Cytunwyd i cael prisiau (concrete a tarmac) i lenwi'r wyneb
9	MATERION ARIANNOL
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Rhent blynyddol y maes chwarae £72.00
9.2	BDO, Southampton (Archwilwyr Allanol) Darllenwyd llythyr yn dweud nid oes barn archwilio wedi'i cyhoeddi ar hyn o bryd.
9.3	Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
10	Materion ar gyfer y rhaglen nesaf
10.	Rhoddion Nadolig
	Llofnod.....Cadeirydd
	06.12.17